

28/02/23

Annwyl Ymgynghorai

Cynnig i Gynyddu Capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220

Mae'r broses ymgynghori statudol llawn bellach wedi dod i ben ar y cynnig gan Gyngor Sir Ddinbych i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220 ar 28 Ebrill 2025. Bydd gweithredu'r cynnig yn amodol ar gytuno ar safle, cael caniatâd cynllunio, p'un a fydd cyllid ar gael a p'un a fydd yr adeilad newydd yn barod.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol o 17 Mai 2022 tan 27 Mehefin 2022. Yna cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 8 Tachwedd 2022 a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 5 Rhagfyr 2022. Cafwyd dau wrthwynebiad ffurfiol. Cafodd y gwrthwynebiadau eu crynhoi yn yr Adroddiad Gwrthwynebu ynghyd â'r ymatebion gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'r gwrthwynebiadau a gofnodwyd a'r pryderon a godwyd, fel nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebu, wedi cael ystyriaeth lawn gan Gabinet y Cyngor.

Mae manylion llawn a'r holl ddogfennaeth berthnasol mewn perthynas â'r cynnig gan gynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gael yn <https://www.sirddinbych.gov.uk/ysgol-plas-brondyffryn-dinbych>

Ar 21 Chwefror 2023 bu i Gabinet Cyngor Sir Ddinbych wneud y penderfyniad terfynol i symud ymlaen gyda'r cynnig ac roeddent yn fodlon y byddai'r cynnig yn:

- Cynnal ansawdd a safonau mewn addysg yn yr ysgol,
- Bodloni'r angen ar gyfer y lleoedd disgyblion arbenigol hyn,
- Gwella cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bydd gweithredu'r cynnig yn amodol ar gytuno ar safle, cael caniatâd cynllunio, p'un a fydd cyllid ar gael a p'un a fydd yr adeilad newydd yn barod.

Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cynnig bu i'r Cyngor ystyried y ffactorau canlynol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o leiaf o gynnal y safonau presennol o addysg yn yr ardal.

Dywedodd Estyn mewn ymateb i'r ymgynghoriad "Mae manteision disgwylidig y cynnig yn cynnwys cynyddu capasiti i fodloni'r galw yn well, yr holl ddisgyblion a staff ar yr un safle, trefniadau pontio gwell a chael ystafelloedd penodol ar gyfer pynciau.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cyngor wedi ystyried y galw tebygol am y lleoedd arbenigol hyn yn y dyfodol ac yn credu fod y cynnig i gynyddu'r capasiti i 220 yn rhesymol ac yn realistig. Yn bresennol ni ellir bodloni'r galw am y mathau hyn o leoedd.

Bydd y cynnig hwn yn sicrhau y bydd adeilad newydd yr ysgol yn bodloni anghenion dysgwyr a bydd yn sicrhau fod gan Sir Ddinbych ddigon o leoedd i ddisgyblion fel hyn ar gyfer y dyfodol.

Nododd Estyn, "Y capasiti arferol yn yr ysgol yw 116, ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae wedi bod dros ei chapasiti am y 6 blynedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ddisgyblion ar restr aros i fynychu'r ysgol ac mae'r cyngor yn disgwyl i'r galw gynyddu dros y blynyddoedd nesaf ac yn awgrymu bod capasiti o 220 yn rhesymol."

Bydd trefniadau cludiant yn parhau i gael eu gwneud yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor Sir.

Darparu adnoddau ar gyfer addysg

Caiff Ysgol Plas Brondyffryn ei hariannu yn unol â fformiwla ariannu Cyngor Sir Ddinbych a bydd yn cael adnoddau yn yr un modd ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, yn seiliedig ar gyfleusterau a niferoedd disgyblion yr ysgol newydd.

Bydd y cynnig hwn yn golygu gwneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol i drosglwyddo'r ysgol i safle newydd.

Mae'r penderfyniad yn ddibynnol ar drefniadau galw i mewn sydd yn rhan o gyfansoddiad y Cyngor sydd yn caniatáu penderfyniadau sydd yn cael eu cymryd gan y Cabinet i'w gweithredu ai adolygu. Os bydd y penderfyniad yn cael ei alw i mewn yna bydd holl fudd-ddeiliaid yn cael eu hysbysu.

Yn ddiffuant

G.W. Davies

Geraint Davies

Pennaeth Addysg